AWTTC

# Cylchlythyr

Gorffennaf 2026

@AWTTCcymraeg | @AWTTCcomms
cttcg.gig.cymru | awttc.nhs.wales

Os hoffech chi gael y rhifyn hwn yn Saesneg, anfonwch e-bost at **awttc@wales.nhs.uk**

## Newyddion AWTTC



### Pwyllgor Goruchwylio Ffarmacogenomeg Cenedlaethol yn cyfarfod

Dan gadeiryddiaeth Cyfarwyddwr Rhaglen AWTTC, Dr Andrew Champion, ac wedi'i hwyluso gan Bartneriaeth Genomeg Cymru (GPW), mae'r Pwyllgor Goruchwylio Ffarmacogenomeg Cenedlaethol yn dwyn ynghyd bartneriaid o bob rhan o GIG Cymru i ddarparu goruchwyliaeth strategol o raglen ffarmacogenomeg Cymru gyfan.

Mae'r pwyllgor yn chwarae rhan allweddol wrth yrru dull cydlynol o weithredu, wrth gefnogi mabwysiadu ffarmacogenomeg yn ddiogel i ymarfer clinigol rheolaidd ac wrth hyrwyddo gofal iechyd personol i gleifion ledled Cymru.

Mae ffarmacogenomeg yn helpu i lunio dyfodol rhagnodi yn GIG Cymru. Drwy ddefnyddio gwybodaeth enetig i ddeall yn well sut mae unigolion yn ymateb i feddyginiaethau, gall gweithwyr gofal iechyd proffesiynol wneud




### Cydweithwyr AWTTC ar y rhestr fer ar gyfer Gwobr GIG Cymru

Llongyfarchiadau i'n cydweithwyr AWTTC Shaila Ahmed, Uwch Fferyllydd a Dr Katt Chaplin, Uwch Wyddonydd, y mae eu gwaith, ‘Newid i Bum Diwrnod: Defnyddio Data i Optimeiddio Hyd y Cwrs Gwrthfiotig Ar Draws GIG Cymru’ wedi cyrraedd y rhestr fer yng nghategori Gwobr Gwybodaeth GIG Cymru yng Ngwobrau GIG Cymru 2026.

Fe'i dewiswyd o'r nifer uchaf erioed o gyflwyniadau o ansawdd uchel, gyda'r beirniaid yn cydnabod ei effaith a'i gyfraniad at wella gofal iechyd ledled Cymru.

Fel rhai a gyrhaeddodd y rownd derfynol, mae'r tîm wedi cael gwahoddiad i arddangos eu gwaith trwy boster, a fydd yn cael ei arddangos ar-lein ac yn seremoni Gwobrau GIG Cymru ym mis Tachwedd. Bydd cyfle

penderfyniadau rhagnodi mwy gwybodus, gan gefnogi triniaeth fwy diogel, effeithiol a phersonol.

Mae manteision ffarmacogenomeg yn cynnwys lleihau adweithiau niweidiol i gyffuriau neu wella ymateb i driniaeth a helpu cleifion i dderbyn y feddyginiaeth gywir a'r dos cywir y tro cyntaf, gan arwain at ganlyniadau iechyd gwell ledled Cymru.

hefyd i gydweithwyr GIG Cymru bleidleisio dros enillwyr y categori. Mae'r pleidleisio'n cau am 5pm ddydd Iau 17 Medi.

Llongyfarchiadau i Shaila a Katt ar y cyflawniad gwych hwn, a dymunwn y gorau iddynt yn y rownd derfynol.

**Pleidleisiwch yma**

---



## Dyddiad ein cyfarfod PAPIG nesaf ym mis Medi

Ymunwch â ni ar gyfer cyfarfod nesaf y Grŵp er budd Cleifion a'r Cyhoedd (PAPIG), a gynhelir yn rhithwir ddydd Iau 17 Medi 2026, rhwng 10am ac 11am.

Bydd y cyfarfod hwn yn cynnwys cyflwyniad ar Eich Meddyginiaethau Eich Iechyd, platfform Cymru Gyfan sy'n cael ei ddatblygu i helpu pobl i wneud penderfyniadau gwybodus am eu meddyginiaethau, cefnogi sgyrsiau gyda gweithwyr gofal iechyd proffesiynol, a chael y canlyniadau iechyd gorau posibl o'r meddyginiaethau maen nhw'n eu cymryd.

Rydym yn croesawu cleifion, gofalwyr ac aelodau'r cyhoedd i gymryd rhan. Mae eich profiadau a'ch safbwyntiau yn hanfodol wrth lunio gwybodaeth ac adnoddau sy'n glir, yn ddefnyddiol ac yn hygyrch. Bydd digon o gyfleoedd i ofyn cwestiynau, rhannu eich barn a chyfrannu at y drafodaeth.

P'un a ydych chi'n ymuno â ni am y tro cyntaf neu'n gyfranogwr rheolaidd, byddem wrth ein bodd yn eich croesawu i'r digwyddiad ar-lein rhad ac am ddim hwn.




## ILAP yn rhoi Pasbortau Arloesi i gynhyrchion ymchwiliol ar gyfer canser a dementia

Mae dwy feddyginiaeth ymchwiliol – un ar gyfer canser yr afu ac un ar gyfer dementia cyrff Lewy – wedi cael Pasbortau Arloesi drwy Lwybr Trwyddedu a Mynediad Arloesol (ILAP) y DU, rhaglen gydweithredol y mae AWTTC yn falch o'i chefnogi ochr yn ochr â'i bartneriaid yn y DU.

Dyfernir Pasbort Arloesi i gynhyrchion a allai fynd i'r afael ag angen clinigol sydd heb ei ddiwallu ac sydd â'r potensial i ddarparu manteision sylweddol i gleifion.

**Darllenwch ragor yma**

Rhagor o wybodaeth

---




## Canllaw Cymru Gyfan ar ragnodi bwydydd di-glwten (ymgynghoriad)

Cafodd y ddogfen hon ei chyhoeddi'n wreiddiol yn 2013 a'i diweddaru ddiwethaf yn 2018; nod y diweddariad diweddaraf hwn yw adolygu cynnwys a chynllun y ddogfen i sicrhau ei bod yn dal i fod yn addas i'w defnyddio, ac hefyd i gynnwys cyfeiriad at y Cynllun Bwydydd Heb Glwten (GFFS) newydd sy'n seiliedig ar gardiau ac sydd bellach yn cael ei gyflwyno ledled Cymru.

Dyddiad cau: Dydd Gwener 14 Awst 2026

Darllenwch ragor yma




## Fframwaith gweithredu Cymru gyfan ar gyfer meddyginiaethau biolegol mewn COPD (ymgynghoriad)

Datblygwyd y fframwaith gan y Rhwydwaith Clinigol Strategol Cenedlaethol ar gyfer Cyflyrau Anadlol, gyda chefnogaeth Canolfan Therapiwteg a Thocsicoleg Cymru Gyfan (AWTTC). Bydd yn cefnogi gweithrediad rheoledig, dan arweiniad clinigol, o feddyginiaethau biolegol ar gyfer clefyd rhwystrol cronig yr ysgyfaint (COPD) yng Nghymru.

Dyddiad cau: Dydd Mawrth 18 Awst 2026

Darllenwch ragor yma

---




## Canllawiau rhagnodi Cymru gyfan ar gyfer dirywiad maciwlaidd gwlyb (neofasgwlaidd) cysylltiedig ag oedran (ymgynghoriad)

Nod y canllawiau yw darparu consensws ar egwyddorion cyffredinol ar gyfer dechrau, oedi a stopio triniaeth, y dewis o driniaeth, a rheolau 'trin ac ymestyn' y

## Bwrdd Rhaglen Fuddsoddi Asesiad Technoleg Iechyd VPAG (Cymru)

Cyfarfu Bwrdd Rhaglen Fuddsoddi Asesiad Technoleg Iechyd VPAG (Cymru) ar 16 Gorffennaf 2026, gan ddod â chynrychiolwyr o bob rhan o GIG Cymru ynghyd i gefnogi cyflawniad y rhaglen yng Nghymru.

Mae'r Bwrdd yn darparu goruchwyliaeth strategol o raglen waith VPAG, sy'n anelu at sicrhau mynediad amserol a theg at feddyginiaeth sy'n effeithiol yn glinigol ac yn gost-effeithiol, cryfhau prosesau asesu a gwella gwneud penderfyniadau sy'n seiliedig ar ddata.

Rhoddodd arweinwyr prosiect VPAG ddiweddariad ar y pedwar maes gwaith:

gellir eu cymhwyso i feddyginiaethau gwrth-VEGF biodebyg ledled GIG Cymru. Bwriedir i’r canllawiau gael eu defnyddio gan staff meddygol a chlinigol, ac maent yn darparu gwybodaeth i gomisiynwyr a swyddogion llywodraethu'r GIG.

Dyddiad cau: Dydd Gwener 21 Awst 2026

Darllenwch ragor yma

sganio'r gorwel a rhagolygon ariannol, ecosystem meddyginiaethau, datgloi data a gweithredu. Trafododd yr aelodau fetrigau cyflawni'r rhaglen a nodi'r cynnydd a wnaed ar draws y pedwar prosiect. Gwnaeth y Cadeirydd longyfarch y tîm ar yr adborth a dderbyniwyd o adolygiad canol cyfnod Buddsoddiad y DU a chydnabod y cydweithrediadau cryf a sefydlwyd gyda sefydliadau cenedlaethol i helpu i gyflawni'r uchelgeisiau a nodwyd yn Rhaglen Fuddsoddi VPAG (Cymru).

Darllenwch ragor yma

---




## Cyhoeddwyd: Dad-labelu alergedd penisilin hanesyddol mewn oedolion

Mae tystiolaeth yn dangos nad oes gan fwy na 90% o gleifion sydd wedi’u labelu ag alergedd penisilin yr alergedd hwnnw pan gânt eu hasesu’n ffurfiol. Mewn llawer o achosion, gall hyn fod oherwydd adwaith andwyol a ddigwyddodd yn ystod cwrs o benisilin pan yn blentyn.

Mae’r canllawiau hyn yn berthnasol i bob gweithiwr gofal iechyd proffesiynol cofrestredig a gellir eu defnyddio i helpu i adnabod pobl sydd â risg isel iawn o alergedd gwirioneddol i benisilin, y mae’n ddiogel tynnu’r label alergedd penisilin oddi arnynt yn seiliedig ar hanes blaenorol yn unig.




## Cyhoeddwyd: Meddyginiaethau a Nodwyd fel Gwerth Isel ar gyfer Rhagnodi yn GIG Cymru

Mae Grŵp Strategaeth Meddyginiaethau Cymru Gyfan (AWMSG) wedi cymeradwyo'r adnodd a ddatblygwyd gan Grŵp Cynghori ar Ragnodi Cymru Gyfan (AWPAG) gyda chefnogaeth gan AWTTC.

Nod y canllawiau yw cefnogi rhagnodi diogel, effeithiol ac effeithlon drwy nodi meddyginiaethau na ddylid eu rhagnodi fel mater o drefn gan fod dewisiadau amgen mwy cost-effeithiol yn bodoli, bod tystiolaeth o fudd yn gyfyngedig, neu fod pryderon diogelwch.

Darllenwch ragor yma

Darllenwch ragor yma




## Cyhoeddwyd: 'Adnoddau gabapentinoid Cymru Gyfan ar gyfer poen cronig'

Mae'r adnoddau hyn wedi'u datblygu gyda mewnbwn gan Dasglu Gabapentinoid Cymru Gyfan, grŵp amlddisgyblaethol o arbenigwyr poen, fferyllwyr, clinigwyr, meddygon teulu, ffisiotherapyddion ac arbenigwyr camddefnyddio sylweddau, gyda chynrychiolaeth gan fyrddau iechyd Cymru.

Nod yr adnoddau yw cefnogi rhagnodi diogel ac effeithiol drwy ddarparu canllawiau ar ddefnydd priodol, cydbwyso'r manteision posibl yn erbyn y niwed, ac annog dull holistaidd o reoli poen.

Darllenwch ragor yma




## Mae angen eich adborth arnom - adnoddau optimeiddio meddyginiaethau AWMSG

Mae gennym amrywiaeth o arolygon adborth ar agor tan ddydd Mercher 30 Medi, sy'n eich galluogi i gyfrannu at ein hadolygiad o'n Fframwaith Optimeiddio Meddyginiaethau sy'n disgrifio sut mae adnoddau optimeiddio meddyginiaethau AWMSG yn cael eu creu; o gynigion gan randdeiliaid, yr holl ffordd at gymeradwyaeth gan AWMSG, lledaenu ac adolygu.

Rhagor o wybodaeth yma



## AWTTC yn cynnal diwrnod cwrdd i ffwrdd i staff

Rhoddodd y digwyddiad gyfle i staff ailgysylltu, rhannu diweddariadau a



## Staff AWTTC yn cymryd rhan yn Ras Gyfnewid flynyddol Cosmeston

thrafod blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn i ddod.

Ymunodd cydweithwyr o Wasanaeth Cyngor ar Feddyginiaethau Cymru (WMAS) â'r cyfarfod, gan roi cyfle i bawb gryfhau cydberthnasau a dysgu mwy am rolau a meysydd arbenigedd ei gilydd ar ôl i WMAS ymuno ag AWTTC yn gynharach eleni.

Edrychwn ymlaen at y diwrnod cwrdd i ffwrdd nesaf ar ddiwedd y flwyddyn.

Fe wnaeth staff o AWTTC ddychwelyd i gymryd rhan yn Ras Gyfnewid flynyddol Cosmeston, a gynhaliwyd yn ardal brydferth Parc Gwledig Llynnoedd Cosmeston.

Mae'r ras gyfnewid 5k flynyddol yn parhau i fod yn uchafbwynt yng nghalendr AWTTC, gan hyrwyddo lles, gwaith tîm ac ymdeimlad o gymuned mewn lleoliad awyr agored anhygoel.


Llongyfarchiadau i bawb a gymerodd ran!

# Newyddion Gwasanaeth Mynediad Cleifion at Feddyginiaethau (PAMS)

## Rhestr feddyginiaethau Blueteq GIG Cymru


Defnyddir system HCD Blueteq i awdurdodi'r defnydd o gyffuriau cost uchel a gymeradwywyd gan y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE) a Grŵp Strategaeth Feddyginiaethau Cymru Gyfan (AWMSG) ar draws ystod gyfan o gyflyrau gofal iechyd.
Mae'r rhestr feddyginiaethau wedi'i diweddaru. Gallwch gael mynediad at y fersiwn ddiweddaraf o'r rhestr **yma**.

# Newyddion Uned Cymorth Presgripsiynu Dadansoddol Cymru (WAPSU)




## Fersiynau diweddaraf o ‘adroddiadau ôl-troed carbon anadlyddion GIG Cymru’ ac ‘adroddiadau cyfnodau rhagnodi GIG Cymru’ wedi’u cyhoeddi

Mae Uned Cymorth Presgripsiynu Dadansoddol Cymru (WAPSU), uned Dangosyddion Presgripsiynu Cenedlaethol 2025–2026: Ffocws ar hyd y ddadansoddol AWTTC, wedi datblygu dangosfwrdd er mwyn adrodd ar




## Dangosyddion Presgripsiynu Cenedlaethol 2025-2026: Dadansoddiad o ddata presgripsiynu hyd at Mawrth 2026

Mae adroddiad y Dangosyddion Presgripsiynu Cenedlaethol (NPI), sy’n dadansoddi data ar gyfer y chwarter sy’n dod i ben ym mis Mawrth 2026,

gynnydd mewn lleihau ôl-troed carbon anadlyddion a ddefnyddir ym maes gofal sylfaenol yng Nghymru.

Darllenwch ragor yma

wedi'i gyhoeddi.

Darllenwch ragor yma

## Newyddion Uned Gwenwynau Cenedlaethol Cymru (WNPU)



### Tocsicoleg Feddygol 2026

Bydd Uned Gwenwynau Genedlaethol Cymru (WNPU) yn cynnal eu cwrs Tocsicoleg Feddygol blynyddol yng Ngwesty'r Leonardo yng Nghaerdydd ar 9-10 Hydref 2026. Mae'r digwyddiad ar gyfer gweithwyr iechyd proffesiynol sydd â diddordeb mewn dysgu mwy am docsicoleg feddygol.


Darllenwch ragor yma

## Newyddion Canolfan Cerdyn Melyn Cymru (CCM)

### Storio meddyginiaeth yn ddiogel mewn tymereddau eithafol

Gall tymheredd eithafol effeithio ar feddyginiaethau mewn tywydd poeth, storiwch bob meddyginiaeth yn briodol a rhowch wybod am unrhyw sgil-effeithiau a amheuir.

Darllenwch ragor yma



## Newyddion Gwasanaeth Cyngor ar Feddyginiaethau Cymru (GCFC)




## Gwasanaeth Anhwylderay Cyffredin. Diweddariadau Gorffennaf 2026


Yn weithredol o 01/07/2026 mae'r deunyddiau canlynol wed'u diweddaru i gefnogi cydran Gwasanaeth Anhwylderau Cyffredin y Gwasanaeth fferyllfa Gymunedol Glinigol ynh Nghymru.

Monograffau Llyfr Fformiwlâu Gwasanaeth Anhwylderau Cyffredin Cymru Gyfan (ar gael ar **wefan AWTTC**) ar gyfer:

• acne vulgaris
• tarwden y traed
• brech yr ieir (mewn plant o dan 14 oed)
• llygaid sych
• croen sych
• heintiau ffwngaidd ar y croen (y corff a'r afl) e elwid gynt yn tarwden (tinea corporis), tinea cruis ac intertrigo
• hemoroidau
• llau pen
• casewin
• brech cewyn
• llindag y geg
• llindag fylfa-faginol

Mae'r holl dempledi PGD cysylltiedig ar gael ar wefan Gwasanaeth Cyngor ar Feddyginiaethau Cymru.

**Darllenwch ragor yma**




## Templedi a chanllawiau Cyfarwyddiadau Grŵp Cleifion (PGDs)

Mae'r templedi Cyfarwyddyd Grŵp Cleifion (PGD) a Chyfarwyddyd Grŵp Brechlyn (VGD) canlynol wedi'u cymeradwyo a'u cyhoeddi i gefnogi'r Rhaglen Genedlaethol Imiwneiddio rhag y Ffliw 2026-2027 a'r rhaglen frechu yn erbyn y Feirws Syncytiol Anadlol (RSV) ar gyfer oedolion hŷn yng Nghymru:

**Templedi VGD newydd:**
• Brechlyn Ffliw wedi'i Anactifadu (IIV) 2 oed a hŷn v1.0
• Brechlyn Ffliw Gwanedig Byw (LAIV) 2 oed i dan 18 oed v1.0
• I'w gyhoeddi erbyn 21 Awst: Brechlyn Feirws Syncytiol Anadlol (RSV) ar gyfer oedolion hŷn VGD v1.0

**Templedi PGD newydd:**
• Brechlyn Ffliw wedi'i Anactifadu (IIV) 6 mis i dan 2 oed v1.0

**Templedi PGD wedi'u diweddaru:**
• Brechlyn Ffliw wedi'i Anactifadu (IIV) gan weithwyr fferyllol cymunedol proffesiynol cofrestredig v5.0
• Brechlyn Feirws Syncytiol Anadlol (RSV) ar gyfer oedolion hŷn v4.0

**Darllenwch ragor yma**

---

**Cofrestrwch i gael cylchlythyr AWTTC wedi'i anfon yn mewnflwch**

Wales NHS | The Routledge Academic Centre University Hospital Llandough Penlan Road | Penarth, CF64 2XX GB

Unsubscribe | Update Profile | Constant Contact Data Notice

Try email marketing for free today!